



Cyfres Stori Duw

Gwers 45

Saul yn cyfarfod Iesu

Actau 9 : 1 – 9 a 19 – 22

Nod:

Mae Iesu'n newid bywydau, fe wnaeth pan oedd ar y ddaear ac mae'n dal i wneud heddiw.

Adnodau:

Actau 9 : 1 – 9 a 19 – 22

Gweithgaredd:

Rhowch ddarn o bapur a phensil/beiro i bob un o'r bobl ifanc. Gofynnwch iddynt blygu'r papur yn ei hanner. Ar un hanner y papur, gofynnwch iddynt dynnu llun ohonynt yn faban, a llun ohonynt yn awr ar yr ochr arall.

Wedi i bawb orffen, holwch hwy a ydynt wedi newid? Beth sydd wedi newid? Oes rhywbeth wedi aros yr un fath? Esboniwch fod ein hanes heddiw am rywun y gwnaeth ei fywyd newid yn llwyr.

Darllen yr adnodau:

Gofynnwch i un o'r bobl ifanc ddarllen Actau 9:1-9, ac yna i un arall o'r bobl ifanc ddarllen Actau 9:19-22.

Rhannwch y dosbarth yn ddau. Gofynnwch i un grŵp edrych ar adnodau 1-9 gan drafod gyda'i gilydd beth maen nhw'n ei ddysgu am Saul cyn iddo gyfarfod Iesu. Gofynnwch i'r grŵp arall drafod beth maen nhw'n ei ddysgu am Saul ar ôl iddo gyfarfod Iesu.

Gofynnwch i wirfoddolwr o'r grŵp cyntaf i ddisgrifio Saul cyn iddo gyfarfod Iesu, ac yna i wirfoddolwr o'r ail grŵp i ddisgrifio Saul

wedi iddo gyfarfod Iesu.

Cwestiynau:

Gofynnwch a yw'r dosbarth yn cytuno, neu'n anghytuno gyda'r gosodiadau isod.

1. Collodd Saul ei olwg am 7 niwrnod, a wnaeth ef ddim bwyta yn ystod y cyfnod hwn. (Anghytuno, 3 diwrnod)
2. Fe wnaeth y dynion a oedd gyda Saul glywed y llais, ond welson nhw ddim byd. (Cytuno)
3. Roedd Saul yn un a oedd yn lladd pobl Dduw. (Cytuno)
4. Roedd ar Saul ofn dweud wrth eraill am Iesu. (Anghytuno, roedd yn siarad am Iesu yn y synagogau)
5. Roedd Saul yn credu mai dyn da oedd Iesu. (Anghytuno, roedd yn credu mai mab Duw ydoedd)
6. Doedd Saul ddim yn gwybod llais pwy oedd yn siarad ag ef ar y ffordd i Ddamascus. (Cytuno fe wnaeth y llais gyflwyno mai Iesu oedd yn siarad, doedd Saul ddim yn gwybod i ddechrau).
7. Fe wnaeth y newid yn agwedd Saul tuag at ddilynwyr Iesu ryfeddu pobl. (Cytuno).

Gweithgaredd:

Rydym wedi chwarae sawl fersiwn o 'dodgeball' yn ystod y gwersi hyn. Dyma fersiwn ychydig yn wahanol, ond os credwch fod un o'r fersiynau eraill yn fwy addas i'ch

grŵp chi, chwaraewch honno. Fe fydd angen dwy bêl arnoch. Gofynnwch i'r dosbarth sefyll mewn cylch mawr gyda digon o le rhwng bob person. Dewiswch un neu ddau i fod mewn ardal benodol ynghanol y cylch hwn. Mae'r bobl ifanc yn y cylch mawr yn rowlio'r peli ar hyd y llawr i geisio taro'r rhai sydd yn yr ardal yn y canol. Wedi i un gael ei daro mae'n ymuno a'r cylch mawr. Pan mae pawb allan penodwch un neu ddau arall i sefyll yn y canol.

Trafodaeth:

Esboniwch fod Saul yn rhywun y byddem ni heddiw yn ei ystyried yn ddyn drwg iawn. Er ei fod yn ddyn crefyddol a oedd yn mynd i'r synagog a chadw rheolau Duw, roedd yn lladd dilynwyr Iesu. Yn wir roedd yn bresennol yn Actau 6 a 7, pan labyddiodd (taflu cerrig ar rywun nes iddynt farw) yr Iddewon Steffan, un o ddilynwyr Iesu.

Gofynnwch i'r bobl ifanc a ydynt yn credu fod rhai pechodau nad yw Iesu'n eu maddau? Pa bechodau dybiech chi yw'r rhain?

Esboniwch ein bod yn dysgu o hanes Saul, nad oes dim byd allwn ni ei wneud na'i ddweud all olygu nad yw Iesu'n fodlon maddau i ni.

Yr unig beth all ein rhwystro rhag derbyn maddeuant Iesu, a rhag mynd i'r nefoedd yw gwrthod Iesu, peidio â chredu ynddo, peidio â'i garu a pheidio â'i ddilyn.

Gweithgaredd:

Beth am ofyn i'r dosbarth lunio drama neu sgets fodern o hanes Saul. Yn canolbwyntio ar y newid a fu yn ei fywyd wedi iddo gyfarfod a dod i adnabod Iesu. Gellir portreadu Saul fel bachgen neu ferch ifanc sy'n gwneud hwyl am ben ei ffrindiau gan eu bod hwy yn dilyn Iesu ac yn mynd i'r capel a'r ysgol sul. Beth fydd yn digwydd iddo wedi'r newid?

Amser Addoli:

Fe fu newid llwyr ym mywyd Saul, daeth yn un o'r Cristnogion enwocaf yn hanes y Beibl, yn wir fe ddefnyddiodd Duw Saul, neu Paul fel y newidiwyd ei enw iddo'n ddiweddarach, i ysgrifennu llawer o'r Testament Newydd.

Ystyriwch a ydi bywydau aelodau'r dosbarth yn newid wrth iddynt ddod i adnabod Iesu. Gweddiwch y bydd cariad pawb o'r dosbarth at Iesu, a gwaith yr Ysbrd Glân yn eu bywydau yn creu cymaint o wahaniaeth, fel y bydd llu o ffrindiau ac eraill eisiau dod i wybod mwy am Iesu eu hunain oherwydd dylanwad aelodau'r dosbarth.

Gweddiwch, O Dduw, gwna ni yn fwy tebyg i Iesu Grist. Amen